OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1038 (Cy.110)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002

Wedi'i wneud	- -	*am 10.20 ar 10 Ebrill 2002*
Yn dod i rym	- -	*am 12.00 ar 10 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, a 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) a'r holl bwerau sy'n eu galluogi yn y cyswyllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym am 12.00 ar 10 Ebrill 2002.

Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002

2.—(1) Mae Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**2**) yn cael ei ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2 yn y diffiniad o "hunting" ychwanegwch y gair "hare" ar ôl y gair "mink".

(3) Yn erthygl 3—

(a) yn lle is-baragraff 2(b)(xiii) a (xiv) rhowch y paragraff canlynol—

"(xiii) of pigs or cattle to an artificial insemination centre;

(**1**) 1981 p.22. Gweler adran 86(1) am y diffiniadau o "the Ministers" a "the Minister". Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac fe'u trosglwyddwyd ymhellach i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/ 794).

(**2**) O.S. 2002/280 (Cy.32).